

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Anghenion Addysgol Arbennig

Ysgol Llanilar



1 Cyflwyniad

- 1.1** Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob dysgwr. Dogfennau'r Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol, Y Fframwaith Sgiliau, y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw ein man cychwyn ar gyfer cynllunio. Yn ystod y broses o gynllunio rydym yn gosod tasgau sydd wedi eu gwahaniaethu, gan ystyried anghenion unigol pob dysgwr neu grŵpiau o ddysgwyr ag anghenion cyffredin. Boed hynny'n anhawster dysgu neu'n allu arbennig.
- 1.2** Mae staff yr ysgol yn ystyried amrywiol ofynion ein dysgwyr, a phan fydd angen, yn darparu cymorth arbennig i unigolion neu grŵpiau fel eu bod yn cael mynediad mor llawn â phosib i'r cwricwlwm a ddarperir.
- 1.3** Gall dysgwyr fod ag anghenion addysgol ychwanegol drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, neu am gyfnod penodol, ac er mwyn targedu angen penodol, yn unig. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod cynllunio cwricwlaidd ac asesiadau ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi ystyriaeth dêg i natur a graddau yr angen sydd gan y dysgwyr.
- 1.4** Rydym yn anelu i sicrhau bod llais y dysgwr yn chwarae rhan naturiol wrth gynllunio gweithgareddau addysgol, yn unol â dymuniadau, oedran, gallu ac aeddfedrwydd y dysgwyr.

2. Nodau ac Amcanion

2.1 Nodau'r polisi hwn yw:

- Cyfleu disgwyliadau clir ar gyfer pob aelod sy'n ymwneud â'r broses;
- Sicrhau rôl a chyfrifoldeb pob aelod o staff sy'n rhan o'r broses;
- Creu amgylchfyd sy'n addas ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol;

- Sicrhau bod anghenion dysgu pob dysgwr yn cael eu hadnabod a'u hasesu a bod darpariaeth addas ar eu cyfer;
- Galluogi bod pob dysgwr yn cael mynediad llawn i bob elfen o gwricwlwm yr ysgol.

3 Anghenion Dysgu Ychwanegol

- 3.1** Rydym yn anelu i addasu ein darpariaeth er mwyn ymateb i anhawster dysgu neu allu arbennig dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gall unrhyw ddysgwr fod ag anghenion dysgu ychwanegol ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol.
- 3.2** Mae Côt Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) yn gosod allan y Camau sydd i'w cymryd wrth asesu anghenion disgyblion. Yn ychwanegol at y ddogfen hon, mae'r ysgol hefyd yn dilyn canllawiau Strategaeth AAA Cyngor Sir Ceredigion (2013).
- 3.3** Yn Ysgol Llanilar, mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn :
- Rheoli gweithrediad y polisi o ddydd i ddydd;
 - Cydlynu'r ddarpariaeth ac yn rheoli'r ymatebion i ofynion anghenion dysgu y dysgwyr;
 - Cynnal a chynghori cydweithwyr;
 - Diweddarau'r Gofrestr ADY;
 - Cyfrannu at, ac yn trosolygu, cofnodion pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol;
 - Rheoli'r broses asesu o fewn yr ysgol ac yn cwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol i asiantaethau allanol a'r AALL;
 - Gweithredu fel dolen gyswllt gyda'r rhieni;
 - Gyfrifol am yr ystod o adnoddau ADY a'r adnoddau dysgu sydd yn cynnal darpariaeth briodol i gyfarfod ag anghenion y dysgwyr;
 - Gweithredu fel cyswllt rhwng asiantaethau allanol ac asiantaethau cynhaliol eraill;
 - Cynorthwyo'r Pennaeth wrth fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ac yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethol pan fo'r angen;
 - Cynorthwyo'r Pennaeth wrth reoli adnoddau dynol sy'n gysylltiedig gyda'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

4 Cynnwys y dysgwr yn y broses addysgol

- 4.1** Drwy ddarpariaeth gwricwlaidd briodol, rydym yn parhau bod gan ein dysgwyr:
- Wahanol anghenion dysgu ac anghenion amrywiol o ran ymddygiad a dyheadau;
 - Anghenion sy'n gofyn am strategaethau addysgu unigol ac amrediad eang o ddulliau a phrofiadau dysgu.

Rydym hefyd yn ystyried bod dysgwyr yn caffael, meithrin a chyfathrebu gwybodaeth ar adegau gwahanol i'w gilydd ac mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd.

4.2 Mae disgyblion yn rhan o broses barhaus o osod targedau ac ysgrifennu CAU.

4.3 Rydym yn ymateb i ofynion ein dysgwyr trwy:

- Ddarparu cynhaliaeth i ddysgwyr sydd angen cymorth o ran cyfathrebu, iaith a llythrennedd (cyd-weithio agos â'r Adran Therapi Iaith a Lleferydd; grwpiau 'SULP');
- Rhoi profiadau addas, sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol, er mwyn datblygu dealltwriaeth ein disgyblion;
- Gynllunio er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd eu llawn botensial ar draws y cwricwlwm (Grwpiau ymyrraeth SATPIN / TRANDEP; Grwpiau ymyrraeth rhifedd; Grwpiau ymyrraeth llythrennedd);
- Rhoi cymorth i ddysgwyr reoli eu hymddygiad a'u hemosiynau ac i ddysgu yn effeithiol a diogel (cyd-weithio gyda Gwasanaeth Ymddygiad y Sir pan fo'r angen; 'Sensory Circuit').

5 Asesu

5.1 Mae adnabod anghenion dysgu yn gynnar yn eu gyrfa ysgol yn angenrheidiol i ddatblygiad y dysgwr. Mae'r athro/awes ddosbarth yn trafod pryderon gyda'r rhieni cyn gynted a bo modd. Yn y lle cyntaf, fel eu bod yn ymwybodol o'r anawsterau, ac yna er mwynsicrhau eu bod yn helpu yn y broses o ddarparu cymorth a chynhaliaeth i'w plentyn.

5.2 Mae'r athro/awes ddosbarth yn cyd-weithio gyda'r Cydlynnydd ADY er mwyn asesu a monitro cynnydd y dysgwr. Byddant yn trafod yr anawsterau a byddant yn cwblhau Taflen Gonsyrn. Os bydd o gymorth, bydd y Cydlynnydd yn arsylwi ar y disgybl ac yn cynnig strategaethau i'r athro/awes ddosbarth. Weithiau, bydd angen cefnogaeth arbenigol yn syth.

5.3 Bydd y Cydlynnydd yn cyd-weithio gyda'r athro/awes ddosbarth a'r rhieni er mwyn cynnal darpariaeth addas ar gyfer anghenion y dysgwr.

5.4 Mae'r ysgol yn dilyn fframwaith o gamau er mwyn ymateb i anghenion dysgu ychwanegol:

Monitro (M): Fel rhan o broses dracio'r ysgol mae cynnydd pob dysgwr yn cael ei fonitro'n gyson er mwyn sicrhau bod yr athro/awes ddosbarth yn

paratoi dysgu gwahaniaethol addas;

Gweithredu

Ysgol (GY): Mae'r athro/awes ddsbarth yn gwahaniaethu ymhellach ar gyfer yr Anghenion ac yn ymgynghori â'r Cydlynnydd;

Gweithredu

Ysgol a Mwy

(GYM): Bydd asiantaethau allanol yn cyd-weithio gyda'r ysgol;

Cytundeb

Adnoddol ar

Gyfer

Gweithredu

Gan yr

Ysgol a

Mwy

(SAPRA): Mae'r ddarpariaeth a geir ar y lefel hon yn debyg iawn i'r hyn a geir gyda Datganiad. Bydd llawer o asiantaethau yn cyd-weithio er mwyn cwrdd ag anghenion y dysgwr yn y modd gorau posib.

Datganiad: Mae'r AALl yn torri i lawr ar y Datganiadau a roddir ac yn anelu at gynnig y ddarpariaeth o dan gefnogaeth SAPRA. Mae Datganiadau'n bodoli ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus.

6 Mynediad i'r Cwricwlwm

6.1 Mae gan bob dysgwr yr hawl i gwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym yn cyflawni hyn trwy wahaniaethu tasgau er mwyn galluogi'r dysgwr i:

- Ddeall perthnasedd a phwrpas tasgau;
- Wneud cynnydd a fydd yn arwain at deimlad o lwyddiant a bodlonrwydd a fydd yn arwain at gynnydd pellach.

6.2 Rydym yn defnyddio ystod eang o strategaethau er mwyn diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Rydym yn deall bod dysgwyr yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol ac yn cynnig profiadau yn seiliedig ar hyn. Mae amcanion clir i wersi ac rydym yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu er mwyn cynorthwyo gwahaniaethu tasgau'n briodol ac i adnabod targedau newydd.

6.3 Rydym yn ceisio'n gorau i roi cynhaliaeth i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn caniatáu iddynt rannu'r 'run profiadau dysgu â'u cyd-ddysgwyr. Serch hynny, mae darpariaeth yr Athrawes Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ogystal â'r Athrawes Ymyrraeth Llythrennedd a Rhifedd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ymarfer sgiliau penodol mewn awyrgylch grŵp bach, er mwyn sicrhau cynnydd. Mae cyfleoedd yn codi, yn nôl yr angen, pan fydd dysgwyr yn gweithio mewn sefyllfa un-i-un y tu allan i'r dosbarth hefyd. Er enghraifft, ymyrraeth Dyfal Donc neu pan fydd cynorthwywyr yn ymarfer sgiliau llefaredd / cydsymud penodol gyda disgybl.

6.4 Mae Cynlluniau Addysg Unigol yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn, yn ystod tymor y Nadolig a'r Haf. Wrth osod mân gamau cyrhaeddiad rydym yn anelu i sicrhau llwyddiant i'r dysgwr.

7 Dosrannu Adnoddau

7.1 Mae'r Cydlynnydd a'r Pennaeth yn gyfrifol am reolaeth weithredol anghenion penodol yn yr ysgol.

7.2 Mae'r Pennaeth yn hysbysu'r Corff Llywodraethol ynghylch sut y caiff cyllid ADY ei ddefnyddio.

8 Partneriaeth â'r rhieni

8.1 Mae adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn rhoi ystyriaeth i'r polisi ADY. Mae llywodraethwr penodedig yn trosolygu y ddarpariaeth ADY, gan fod yn barod i siarad gyda rhieni, os oes angen.

8.2 Pan fo hynny'n briodol, mae'r ysgol yn ceisio hysbysu'r rhieni ynghylch unrhyw newidiadau yn y broses anghenion dysgu ychwanegol. Rydym yn rhoi ystyriaeth i ddymuniadau a theimladau rhieni a'r wybodaeth sydd ganddynt ar bob achlysur.

8.3 Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod cynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gyda'r dysgwyr a'r rhieni. Rydym yn derbyn caniatâd rhieni pan yn gosod eu plentyn ar y Gofrestr ac yn eu hysbysu pan fydd unrhyw gyfraniad gan asiantaeth allanol i'r broses.

9 Rôl y Corff Llywodraethol

9.1 Mae'r Corff Llywodraethol yn gwneud eu gorau i sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer unrhyw ddysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn ymgynghori gyda'r AALl pan fo'r angen ac yn adrodd yn flynyddol ar lwyddiant gweithrediad y polisi.

10 Monitro a Gwerthuso

- 10.1** Mae'r Cydlynnydd yn monitro symudiad dysgwyr ar y Gofrestr ADY. Mae'r Cydlynnydd yn mynychu cyfarfodydd cynllunio blynnyddol er mwyn arfarnu a chynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r Cydlynnydd yn adrodd yn ôl ar ddatblygiadau yn hyn o beth mewn cyfarfodydd staff. Mae'r Cydlynnydd hefyd yn darparu crynodebau ynghylch dylanwad y polisi i'r staff a'r llywodraethwyr yn ôl y gofyn.
- 10.2** Mae'r Cydlynnydd yn darparu cymorth i staff ac yn cyd-weithio gyda'r Cynorthwydd ADY er mwyn cynorthwyo gyda ysgrifennu CAU. Mae cynlluniau'n cael eu trafod a'u hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Mae'r dysgwyr yn gosod eu targedau ac mae rhieni yn cael gwahoddiad i drafod y targedau hyn yn ystod tymor yr Hydref. Mae copïau o dargedau newydd yn cael eu danfon adre.
- 10.3** Mae'r Corff Llywodraethol yn adolygu'r polisi yn flynyddol ac yn ystyried diwygiadau yn wyneb datblygiadau diweddera ym maes ADY. Mae'r Pennaeth yn adrodd ynghylch adolygiadau blynnyddol a manylion y Gofrestr.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y corff llywodraethu:

.....Mr Meic Francis.....

Dyddiad cymeradwyo:04/12/2019.....

(gan y corff llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu:04/12/2020.....